**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 1) 2023**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn gweithredu ac yn diwygio'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig a Chynlluniau Rhif (T/22/54/WS) ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/legalnotices ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF963) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 3 Mawrth 2023** ac mae rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
**Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Mewnosoder i atodlenni map AY50**
**Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg**

**Ffordd y Mileniwm**
Ar yr ochr dde-ddwyreiniol, o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Neptune Road i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 158m.
Ar yr ochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o tua 78m.
Ar yr ochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 51m.

**Neptune Road**
Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 72m.
Ar yr ochr dde-orllewinol o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 54m.
Ar yr ochr dde-orllewinol o bwynt oddeutu 62m i'r de-ddwyrain o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Y Mileniwm i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 25m.

**Stryd Sant Baruc**
Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd am bellter o tua 60m.
Ar yr ochr dde-orllewinol o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 40 metr.
Ar yr ochr dde-orllewinol, o bwynt oddeutu 50m i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Ffordd y Mileniwm i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 20m.

**Ffordd ddi-enw yn arwain i Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
Ar y ddwy ochr o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Stryd Sant Baruc i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 15m.

Dyddiedig 9 Chwefror 2023.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA